

amserbeibl

Storiau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Genesis 37: 1-11



ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 37: 8

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodau hyn.

Stori I Y Breuddwydiwr Ifanc

Oes gennych chi deulu mawr? Roedd gan Joseff deulu mawr iawn! Roedd ganddo ddeg brawd mawr, un brawd bach, ac un chwaer.

C Faint o fechgyn oedd yn y teulu?

Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.


10 11 12



3

Bugeiliaid oedd brodyr mawr Joseff. Yn aml, roedden nhw'n mynd i ffwrdd am amser hir i chwilio am borfa a dŵr ar gyfer yr anifeiliaid. Weithiau roedden nhw'n gwneud pethau drwg ac roedd Joseff yn cario claps/achwyn amdanynt wrth ei dad. Jacob oedd enw tad Joseff ac roedd yn meddwl y byd o Joseff. Roedd gan Jacob enw arall.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf bob un o'r pethau isod i gael gwybod enw arall Jacob.



— — — — — —

4

Gan fod Jacob mor hoff o Joseff, rhoddodd gôt hardd iddo. Roedd llawer o liwiau yn y gôt. Efallai mai un fel hyn oedd hi.


Lliwiwch y gôt yn ofalus.



Roedd brodyr mawr Joseff yn genfigenus ohono. I ddweud y gwir, roedden nhw'n ei gasáu! Mae'n drist iawn pan na fydd pobl yn ffrindiau â'u teulu!

Cafodd Joseff freuddwydion rhyfedd. Yn y freuddwyd gyntaf, roedd y brodyr i gyd yn clymu bwndeli o wair i wneud ysgubau.

Yn sydyn, cododd ysgub Joseff a dechreuodd ysgubau ei frodryr blygu o'i blaen i ddangos parch!!



3

C Llanwch y bylchau i ateb y cwestiynau.

Ysgub pwy gododd ar ei sefyll? _____

Ysgubau pwy blygodd o'i blaen? E _____ f _____

6

Yn y dyddiau hynny, roedd Duw'n defnyddio breuddwydion i ddweud wrth bobl am y dyfodol. Roedd brodyr Joseff yn siwr bod y freuddwyd yn golygu y byddai Joseff yn fôs arnynt rhyw bryd yn y dyfodol. Felly, roedden nhw'n casáu Joseff fwy nag erioed. Yna, cafodd Joseff freuddwyd am yr haul, y lleuad ac 11 o sêr.

Yn y freuddwyd, roedden nhw i gyd yn plygu o flaen Joseff! Roedd hyd yn oed dad Joseff yn flin pan soniodd Joseff am y freuddwyd hon. "A wyt ti'n dweud y byddaf i a dy fam a dy frodryr yn plygu o dy flaen un diwrnod?" gofynnodd yn sarrug.

C Tynnwch y nifer iawn o sêr i ddangos faint oedd ym mreuddwyd Joseff. (Mae'r un gyntaf yno'n barod)



4

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, daeth Joseff yn ddyn pwysig iawn ac roedd hyd yn oed ei frodryr ei hunan yn plygu i ddangos parch iddo! O'r dechrau, roedd gan Dduw gynllun arbennig ar gyfer Joseff. Mae ganddo gynllun ar ein cyfer ni hefyd! Ydych chi'n fodlon gwrando ar beth y mae Duw'n ei ddweud wrthych yn y Beibl? Allwch chi ei drystio i roi'r cynllun ar waith? Y cam cyntaf yw credu yn lesu fel eich Gwaredwyr.

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH
Genesis 37: 12-36



ADNOD
ALLWEDDOL
Numeri 32: 23

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 2 Brodyr Joseff yn ei Gasáu

Ydych chi'n mwynhau helpu mam a dad? Dim bob amser, efallai! Un diwrnod, gofynnodd tad Joseff iddo fynd i weld sut roedd ei frodryr. Roedden nhw'n bell i ffwrdd yn gofalu am eu defaid a'u geifr. Roedd Joseff yn falch o gael gwneud hyn ac felly i ffwrdd ag ef.


Gwelodd ei frodryr ef yn dod o bell. Cyn iddo gyrraedd, roedden nhw'n trefnu i'w ladd. "Dyma'r breuddwydiwr yn dod," medden nhw. "Dewch i ni ei ladd a thaflu ei gorff i dwll mawr. Fe ddywedwn ni wrth Dad bod rhyw anifail gwylt yn siwr o fod wedi'i ladd. Yna, gawn ni weld beth a ddaw o'i freuddwydion."

C Rhowch (✓) wrth y brawddegau CYWIR a (✗) wrth y rhai ANGHYWIR.

- | | |
|--|-------|
| Roedd Joseff yn gwrthod gwrando ar ei dad. | |
| Roedd ei frodryr yn falch o'i weld. | |
| Roedden nhw am roi ei gorff yn yr afon. | |
| Roedd ei frodryr yn mynd i ddweud celwydd. | |

4

Dyweddodd un o'i frodryr,
o'r enw Reuben, na
ddylen nhw ei ladd. Felly,
dyma nhw'n tynnu ei gôt
hardd ac yn taflu Joseff i
dwll mawr dwfn. Mae'n
dda bod y twll yn wag,
heb ddim dŵr ynddo.
Wedyn, dyma
farchnatwyr a chamelod
yn dod heibio ar eu
ffordd i'r Aifft. "Dewch i
ni werthu Joseff i'r
marchnatwyr," meddai
Jwda. Cytunodd y brodryr
a dyma nhw'n tynnu
Joseff o'r twll ac yn ei
werthu am 20 darn arian.
Aeth y marchnatwyr ag ef
i'r Aifft.



C Atebwch y cwestiynau.

Pa frawd oedd yn dweud na ddylan nhw ladd Joseff? R _____ .

Pwy awgrymodd y dylen nhw werthu Joseff? J _____ .

Faint o arian gawson nhw am Joseff? 20 darn _____ .

I ba wlad aeth Joseff? Y _____ A _____ .

8



Cyn gynted ag yr aeth y marchnatwyr â Joseff i ffwrdd, lladdodd ei frodyr afr a rhoi côt Joseff yn ei gwaed. Aethon nhw â'r gôt adref i ddangos i'w tad. "Ai côt Joseff yw hon?" ofynnon nhw.

Roedd Jacob yn nabod y gôt yn iawn ac meddai, "le, wir; mae'n rhaid bod anifail gwylt wedi ymosod arno."

Roedden nhw'n ddrwg iawn yn dweud celwydd i guddio beth roedden nhw wedi'i wneud! Ond, yn y diwedd, cawson nhw eu dal!!

C Cofiwch, mae'r Beibl yn dweud:-

"Bydd eich pechod yn eich dal."

4


Numeri 32: 23

Lliwiwch y geiriau hyn a'u dysgu.

Roedd eu tad yn drist iawn. Roedd yn crïo a llefain gan feddwl bod Joseff wedi marw. Ond roedd Joseph yn yr Aift, yn was i ddyn o'r enw Potiffar.

C Edrychwch dros y stori eto ac ateb y cliwiau isod yn y Croesair.

- Roedd y twll y cafodd Joseff ei daflu iddo yn _____.
1.
- Gwerthodd ei frodyr Joseff am ugain darn _____.
2.
- Cafodd côt Joseff ei throchi mewn gwaed _____.
3.
- Aeth yr Ismaeliaid â Joseff i'r _____.
4.



4

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH

Genesis 39: 1-6 a 19-23



ADNODAU
ALLWEDDOL

Genesis 39: 2 a 21

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 3 Y Carcharor Ffyddlon

Dychmygwch pe bai pobl ddieithr yn mynd â chi i wlad bell! Mae'n siwr bod Joseff yn ofnus iawn ar y daith i'r Aifft! Beth fyddai'n digwydd iddo nesaf? Cyn hir, cafodd ei werthu i ddyn o'r enw Potiffar. Roedd Potiffar yn gapten ym myddin brenin yr Aifft. Roedd yn gorfod teithio gyda'r fyddin. Pan welodd fod Joseff yn was ffyddlon a gweithgar, gadawodd bopeth yn ei ofal ef. Roedd Joseff yn gwneud ei waith mor dda fel nad oedd raid i Potiffar boeni am ddim byd.


**C Darllenwch y brawddegau hyn a thynnu llinell trwy'r geiriau
ANGHYWIR.**

Pan ddaeth Joseff i'r Aifft, cafodd ei GURO, WERTHU, OLLWNG YN RHYDD.

Daeth yn was i PHARO, PEILAT, POTIFFAR.

Roedd yn gofalu am BOPETH, DIM BYD, RAI PETHAU.

Roedd Joseff yn DDIOG, GELWYDDOG, ONEST.



Mae'n siwr bod ar Joseff hiraeth am ei gartref, ei dad a'i frodwr. Efallai ei fod yn teimlo'n unig ac ar goll.

Ond yn ei holl brofiadau, mae'r Adnodau Allweddol yn dweud wrthym:-


“Roedd yr
Arglywydd gyda
Joseff.”
Lliwiwch y geiriau.

8

4

Wnaeth Duw ddim gadael Joseff na'i siomi! Mae Duw yr un peth o hyd.
Os gwnawn ni drystio Duw, ni fydd ef yn ein siomi.

Ond un diwrnod, dechreuodd pethau fynd o chwith i Joseff. Cafodd y bai gan wraig Potiffar er nad oedd wedi gwneud dim byd o'i le. Pan ddaeth Potiffar adref, fe ddywedodd hi gelwydd wrtho am Joseff. Credodd Potiffar ei wraig a chafodd Joseff ddim cyfle i ddweud y gwir. Er nad oedd bai arno o gwbl, cafodd ei daflu i'r carchar at lawer o bobl eraill.



C Rhowch bob un o'r geiriau hyn yn y bwlch cywir.

gwraig carchar Potiffar was

Dyweddodd g_____ P_____ gelwydd am Joseff.

Collodd Joseff ei waith fel prif w_____ Potiffar a chafodd ei daflu i'r
c_____ ar gam.

4



Druan o Joseff! Roedd yn edrych fel pe bai pawb yn ei erbyn.
A oedd ganddo un ffrind ar ôl? A oedd Duw wedi anghofio
amdano hefyd? Nac oedd, wir!

C Unwaith eto, mae'r Beibl yn dweud yr un geiriau:-

R_____ yr A_____ g_____ J_____.
Llanwch y bylchau.

4

Fel o'r blaen, roedd Joseff yn uffffd yn y carchar a chyn hir cafodd ofalu am garcharorion eraill. Roedd Duw yn ei baratoi ar gyfer gwaith pwysig!

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH
Genesis 41: 14-49




ADNOD
ALLWEDDOL
I Corinthiaid 10: 13

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodaau hyn.

Stori 4 Yr Arweinydd Newydd

Roedd Pharo, brenin yr Aifft, wedi cynhyrfu'n lân. Roedd wedi cael dwy freuddwyd rhyfedd iawn. Breuddwyd am wartheg oedd yn gyntaf – saith buwch dew a saith buwch denau – y gwartheg tenau'n bwyta'r rhai tew ond yn edrych yr un mor denau ag o'r blaen! Yna breuddwydiodd am saith tywysen dda yn cael eu llyncu gan saith tywysen denau a'r tywysennau tenau yn dal mor denau ag erioed!

Dyna freuddwydion rhyfedd! Beth oedd eu hystyr? Nid oedd neb yn gwybod ac roedd y brenin wedi cynhyrfu.



C Rhowch y llythrennau yn eu trefn gywir.


Enw brenin yr Aifft oedd O A PH R _____ .

Am beth oedd breuddwyd gyntaf Pharo?
E G A TH R G W _____ .

Yn yr ail freuddwyd, roedd tywysennau T U N E A _____
yn bwyta tywysennau A D ____ .

8

Yn sydyn, cofiodd bwtler y brenin am Joseff a oedd yn y carchar ers blynnyddoedd. Roedd y bwtler wedi bod yn y carchar hefyd ac wedi cwrdd â Joseff. Roedd yn siwr y gallai Joseff esbonio breuddwydion y brenin. Anfonodd y brenin am Joseff yn syth.




“Rwy'n clywed dy fod yn gallu esbonio breuddwydion,” meddai Pharo.
“Mae Duw yn fy helpu,” meddai Joseff.

Gwrandawodd Joseff ar y brenin yn sôn am ei freuddwydion. Esboniodd fod Duw yn dweud wrth Pharo y byddai saith mlynedd o gnydau da yn yr Aifft ac yna saith mlynedd o gnydau gwael. Byddai'n rhaid cadw'r bwyd oedd dros ben yn y blynnyddoedd da i'w fwyta pan na fyddai digon o fwyd.

C Llanwch y bylchau ac ysgrifennu'r atebion yn y GRID GEIRIAU.

1. Roedd ___ yn helpu Joseff i esbonio breuddwydion.
2. I ddechrau, byddai _____ da yn yr Aifft.
3. Byddai digon o fwyd am _____ mlynedd ac yna ddim digon o fwyd am ____ mlynedd.
4. Byddai'r newyn (dim digon o fwyd) yn effeithio ar wlad ____ i gyd.
5. Byddai'n rhaid iddyn nhw gadw bwyd o'r blynnyddoedd da i'w _____ pan fyddai bwyd yn brin.




5

Roedd y brenin wedi'i blesio gan esboniad Joseff ar ei freuddwydion. Yn wobr, rhoddodd waith pwysig iddo sef casglu'r bwyd oedd dros ben yn y saith mlynedd o gnydau da a'i gadw erbyn y byddai bwyd yn brin.

Hefyd, rhoddodd y brenin anrhegion gwerthfawr i Joseff, er enghraift, ei fodrwy ei hun, cadwyn aur a dillad drud. Rhoddodd rywbedd arall iddo hefyd.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i weld beth arall gafodd Joseff yn anrheg gan Pharo.



4

Dyna ryfedd oedd y newid ym mywyd Joseff! Erbyn hyn, dim ond y brenin oedd yn bwysicach nag ef. Roedd pawb yn ei barchu. Roedd cynllun Duw yn dod yn wir. Roedd wedi cael bywyd caled ond roedd wedi profi bod:

“**Duw yn ffyddlon.**”
Lliwiwch y geiriau hyn o'r Adnod Allweddol.

3

Mae Duw eisiau i ni fod fel Joseff – yn ei drystio yn llwyr, hyd yn oed pan fydd bywyd yn anodd.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynys Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120